Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Asesiad Cyfunol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Gymraeg

| | |
|---|---|
| Enw'r polisi, strategaeth, prosiect, rhaglen neu gynllun – y cynnig: | Cronfa adfer ddiwylliannol i'r celfyddydau 2020/21 |
| Fersiwn newydd? | Ie |
| Diweddariad i'r fersiwn bresennol? | Nage |
| Tîm/adran: | Uned y Prif Weithredwr |
| Pwy sy'n cynnal yr asesiad? | Angela Thomas |
| Dyddiad yr asesiad: | 11 Awst 2020 |

## Cynnwys


Cyflwyniad 3

1. Beth yw prif nodau/dibenion/canlyniadau'r cynnig? 3

2. Ar bwy y mae'r cynnig yn effeithio neu bwy a gaiff fudd o'r cynnig a sut? 4

3. A gafodd y bobl yr effeithir arnynt le yn y broses ymgynghori? 5

4. Beth a wneir i gyfyngu ar effaith negyddol neu hyrwyddo effaith gadarnhaol ar grwpiau gwarchodedig, y Gymraeg a nodau cenedlaethau'r dyfodol? 5

5. Sut y bydd yn hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da a dileu gwahaniaethu? 5

Atodiad 1 7

Asesu effaith a chryfhau 7

Atodiad 2 27

Camau a nodir drwy'r asesiad 27



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cyflwyniad

Diben yr asesiad cyfunol o effaith yw sicrhau bod y polisïau a'r strategaethau yr ydym ni'n eu datblygu yn hyrwyddo blaenoriaethau cyffredinol y Cyngor. Yma mae'n cynnwys cydraddoldeb, y Gymraeg a 7 nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r asesiad yn cyfrannu at lunio polisïau effeithiol drwy ein hannog i feddwl am effaith a chanlyniadau ein gwaith. Drwy fynd i'r afael â'r materion yma'n benodol ar y cam cynllunio cynharaf, rydym ni'n fwy tebygol o ddatblygu cynigion sy'n bodloni blaenoriaethau'r Cyngor orau. Os yw'r broses yn nodi problemau, mae gennym gyfle i unioni pethau. Mae hyn yn ein helpu i fodloni ein gofynion dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Drwy'r ddogfen, defnyddiwn y gair 'cynnig' i gyfeirio at yr hyn yr ydym ni'n ei asesu. Yn y cyd-destun yma, mae'r term yn cynnwys strategaeth, prosiect, polisi, rhaglen a menter, gan gynnwys rhai newydd ac unrhyw rai presennol sy'n cael eu newid/diweddaru'n sylweddol.

A fyddech cystal ag ymateb i'r cwestiynau canlynol, gan ddarparu lefelau priodol o fanylder?

## 1. Beth yw prif nodau/dibenion/canlyniadau'r cynnig?

Nod y gronfa yw helpu cyrff i oroesi yn ystod cyfnod o bwysau ariannol difrifol oherwydd y coronafeirws. Mae cyfyngiadau parhaus ar ailddechrau gweithgarwch oherwydd ymbellhau cymdeithasol sy'n ychwanegu at yr ansicrwydd i artistiaid a sefydliadau celfyddydol. Helpu i fynd i'r afael â'r pwysau yw prif ddiben y gronfa.

Mae dwy elfen i'r gronfa – arian refeniw o £35.5 miliwn ac arian cyfalaf o £2 miliwn. Bydd y gronfa yn ystyried rhoi cymorth i fusnesau o bob maint sy'n cyflogi staff, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau elusennol a chwmnïau masnachol. Gall sefydliadau sydd angen help gyda'r costau cyfalaf o addasu eu lleoliadau a'u cyfleusterau i'w gwneud yn ddiogel o ran y coronafeirws ymgeisio i'r gronfa gyfalaf ar wahân ar gyfer grant uwch na £2,000.

Drwy'r gronfa targedwn y rheini sy'n cefnogi a hyrwyddo gweithgarwch celfyddydol sy'n hygyrch i bobl Cymru. Rhoddwn sylw arbennig i'r rhai sy'n wynebu pwysau ariannol sylweddol, gan gynnwys canlyniadau diweddu cynllun cadw swyddi Llywodraeth Prydain.

Nid yw'r gronfa'n ariannu pob math o sefydliad nac unigolyn/ymarferydd llawrydd. Ariennir y sectorau yma drwy feysydd eraill yn y gronfa adfer diwylliannol a reolir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gronfa yn ategu mesurau ymateb i'r coronafeirws i gefnogi busnesau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau elusennol.

## 2. Ar bwy y mae'r cynnig yn effeithio neu bwy a gaiff fudd o'r cynnig a sut?

Cronfa yw hon ar gyfer sefydliadau celfyddydol Cymru (er elw a dielw) y mae'r coronafeirws wedi effeithio arnynt ac sy'n ceisio ymgynnal nes y gallant ailddechrau gwaith hygyrch i'r cyhoedd yn 2021 ac wedyn.

Rydym ni wedi cyrraedd diwedd cam cyntaf ein strategaeth o ran y coronafeirws. Yn 2020/21 mae chwarteri 1 a 2 o arian i'r Portffolio wedi'i dalu ac mae chwarter 3 i'w dalu ddechrau Hydref.

Pecyn achub ac adfer sydd yma'n bennaf, a sector celfyddydau Cymru fydd y prif fuddiolwyr. Ond mae hefyd yn cynnig cyfle i drawsnewid y celfyddydau o ran eu cyrhaeddiad a'u heffaith. Bydd disgwyl i sefydliadau sy'n ceisio arian ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb ac ymrwymo i gontract diwylliannol i greu ffyrdd newydd o weithio a sicrhau rhagor o amrywiaeth ym maes rheoli, y gweithlu a'r rhaglenni.

Ymhell cyn i'r coronafeirws daro, rydym ni wedi ailddatgan ein cred bod gormod o bobl yn dal i gael eu hamddifadu o'r cyfle i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan a gweithio ynddynt. Credwn fod profiadau'r celfyddydau yn gwella bywyd a bod mynegiant dychmygus yn bwysig i gymdeithas iach a deinamig ac y dylent fod ar gael i bawb. I sicrhau bod y celfyddydau yma'n wydn, cyfartal ac amrywiol, rhaid inni annog arweinyddiaeth gref ac entrepreneuraidd.

Mae dwy flaenoriaeth sy'n sail i'n strategaeth:

1. Hyrwyddo **cydraddoldeb** fel sail i'n hymrwymiad clir i ymestyn yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned yng Nghymru

2. **Cryfhau gallu a gwytnwch y sector**, gan alluogi talent greadigol i ffynnu

Rydym ni hefyd wedi nodi cam gweithredu i gefnogi'r gwaith:

3. **Galluogi'r Cyngor i weithio'n fwy effeithiol,** gan gydweithio'n fwy dychmygus â phartneriaid o'r un anian ledled Cymru

Mae hyn yn golygu meithrin sector sy'n ddychmygus, arloesol, sydd wedi'i wreiddio yn ei gymuned, sy'n canolbwyntio ar ei chynulleidfa ac addasu ei fusnes i wrthsefyll newid rhagweladwy neu annisgwyl. Ein tasg yw sicrhau bod sefydliadau celfyddydol ledled y wlad yn ddichonadwy a bywiog.

Mae ein cronfa'n cefnogi'r blaenoriaethau a chodi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch, *Mae bywyd pobl dduon o bwys* ac *Ni chawn ein dileu*. Bydd gofynion yr ymgyrchoedd yn elfen sylfaenol yn y ffordd y cyflwynwn y gronfa.

Bydd disgwyl i'r rhai sy'n cael arian o'r gronfa lofnodi contract diwylliannol Llywodraeth Cymru.

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw Cymru sy'n deg, ffyniannus a hyderus sy’n gwella ansawdd bywyd ei phobl ym mhob un o’n cymunedau. Nod y contract yw annog ymgeiswyr i fabwysiadu ymrwymiadau newydd i sicrhau bod arian y cyhoedd yn cael ei ddefnyddio at ddiben cymdeithasol.

## 3. A gafodd y bobl yr effeithir arnynt le yn y broses ymgynghori?

Rydym ni wedi datblygu’r gronfa mewn deialog â’r Llywodraeth ac mae'n ategu mesurau eraill y mae’r Llywodraeth a'i phartneriaid yn eu cynnig. Bu'r ddeialog â'r sector celfyddydol yn helaeth. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd i gael gwybod pa anghenion ariannol sydd. Mae lobi o artistiaid a sefydliadau celfyddydol wedi cyflwyno eu cynigion sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad y gronfa.

Mae deialog hefyd wedi digwydd gyda phobl dduon, pobl liw ond heb fod yn ddu, pobl fyddar a phobl anabl ac mae’r sgwrs wedi dylanwadu ar ddatblygiad y gronfa.

## 4. Beth sy'n cael ei wneud i gyfyngu ar unrhyw effaith negyddol neu hyrwyddo effaith gadarnhaol ar grwpiau gwarchodedig, y Gymraeg a nodau cenedlaethau’r dyfodol?

Gweler Atodiad 1 a 2

## 5. Sut y bydd yn hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da a dileu gwahaniaethu?

Prif bwrpas y gronfa yw darparu cymorth ariannol i gynnal sefydliadau hyd at Fawrth 2021. Ond i fod yn gymwys i gael arian, rhaid i sefydliadau ymrwymo i gontract diwylliannol newydd fel amod o gael grant.

Mae hyn yn hyrwyddo amcanion cydraddoldeb yn gadarn a gofyn i sefydliadau gynnwys yn eu cynlluniau at y dyfodol:

- **Gwaith teg** – sicrhau cyfraddau cyflog priodol a gwneud y gorau o gyfleoedd i ymgysylltu â gweithwyr llawrydd a'u cefnogi
- **Amrywiaeth bwrdd a gweithlu** – cynyddu, drwy eu holl sefydliad a'u gwaith, ymwneud â phobl dduon, pobl liw nad ydynt yn ddu, pobl fyddar, pobl anabl a phobl â nodweddion gwarchodedig eraill, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg
- **Cefnogi mentrau ehangach** gan y staff a gadwyd (er enghraifft, olrhain cysylltiadau ym mentr "Profi, Olrhain, Amddiffyn")
- Cefnogi mentrau'r **celfyddydau ac iechyd,** gan gynnwys presgripsiynu cymdeithasol
- **Cynaliadwyedd amgylcheddol** - lleihau effaith eu gwaith ar yr amgylchedd

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd yr asesiad cyfunol o effaith gan:** | Nick Capaldi, Prif Weithredwr |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 12 Awst 2020 |

# Atodiad 1

## Asesu effaith a chryfhau

Dyma'r adran sy'n gofyn ichi asesu effaith y cynnig ar bob un o'r grwpiau gwarchodedig, y Gymraeg a nodau llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Nodwch effeithiau'r cynnig ar y grwpiau canlynol.

### Oedran (yr holl ystod oed)

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Mae'r cynnig yn canolbwyntio'n bennaf ar feini prawf cymhwysedd y sefydliadau sy'n ymgeisio. Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol sy'n gofyn iddynt ystyried amrywiaeth eu bwrdd, eu staff a'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith, ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys oedran. | Amherthnasol | Byddwn ni'n monitro cynnydd sefydliadau yn ôl gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni'r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn am y canlyniadau drwy ein trefniadau adrodd ar gydraddoldeb arferol.<br><br>Rydym ni wedi pwysleisio'r contract diwylliannol yn y ffurflen gais. |

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| | Mae cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig hefyd yn faen prawf i asesu ceisiadau i'r gronfa.<br>Ein prif waith gyda phobl ifanc yw Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Mae'n rhaglen ar y cyd a ariennir wrth gydweithio â Llywodraeth Cymru ac nid yw'n rhan o gynnig y gronfa. | | |

## Anabledd

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Bydd canllawiau'r gronfa yn cael eu cyhoeddi mewn fersiynau Hawdd ei Ddarllen ac Arwyddeg Prydain.<br><br>Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi contract diwylliannol Llywodraeth Cymru sy'n gofyn i bob sefydliad ddangos cynnwys pobl fyddar a phobl anabl a chefnogi mentrau'r celfyddydau ac iechyd yn eu cynlluniau at y dyfodol.<br><br>Mae cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig hefyd yn faen prawf i asesu ceisiadau i'r gronfa. | Amherthnasol | Byddwn ni'n monitro cynnydd sefydliadau yn ôl gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni'r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn am y canlyniadau drwy ein trefniadau adrodd ar gydraddoldeb arferol. |

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| --- | --- | --- | --- |
| Effaith gadarnhaol | Mae cymorth ychwanegol ar gael i unrhyw sefydliad wrth ymgeisio os cânt anhawster oherwydd iechyd neu anabledd. | Amherthnasol | Tynnir sylw at y cymorth ychwanegol yn gynnar yn y broses ymgeisio. |

## Ailbennu rhywedd

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol sy'n gofyn iddynt ystyried amrywiaeth eu bwrdd, eu staff a'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith, ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys ailbennu rhywedd. Mae cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig hefyd yn faen prawf i asesu ceisiadau i'r gronfa. | Amherthnasol | Byddwn ni'n monitro cynnydd sefydliadau yn ôl gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni'r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn am y canlyniadau drwy ein trefniadau adrodd ar gydraddoldeb arferol. |

## Priodas a phartneriaeth sifil

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol sy'n gofyn iddynt ystyried amrywiaeth eu bwrdd, eu staff a'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith, ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys statws priodas a phartneriaeth sifil. Mae cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig hefyd yn faen prawf i asesu ceisiadau i'r gronfa. | Amherthnasol | Byddwn ni'n monitro cynnydd sefydliadau yn ôl gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni'r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn am y canlyniadau drwy ein trefniadau adrodd ar gydraddoldeb arferol. |

## Beichiogrwydd a mamolaeth

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol sy'n gofyn iddynt ystyried amrywiaeth eu bwrdd, eu staff a'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith, ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys beichiogrwydd a statws mamolaeth. Mae cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig hefyd yn faen prawf i asesu ceisiadau i'r gronfa. | Amherthnasol | Byddwn ni'n monitro cynnydd sefydliadau yn ôl gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni'r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn am y canlyniadau drwy ein trefniadau adrodd ar gydraddoldeb arferol. |

## Hil

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw’r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo’r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol sy’n gofyn i sefydliadau dangos amrywiaeth eu bwrdd a’u gweithlu i gynyddu'r rhan sydd gan bobl dduon a phobl liw nad ydynt yn ddu yn eu sefydliad a’u gwaith. Mae cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig hefyd yn faen prawf i asesu ceisiadau i’r gronfa. | Amherthnasol | Byddwn ni’n monitro cynnydd sefydliadau yn ôl gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni’r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn am y canlyniadau drwy ein trefniadau adrodd ar gydraddoldeb arferol. |

## Crefydd/cred

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol sy'n gofyn iddynt ystyried amrywiaeth eu bwrdd, eu staff a'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith, ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys crefydd a chred. Mae cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig hefyd yn faen prawf i asesu ceisiadau i'r gronfa. | Amherthnasol | Byddwn ni'n monitro cynnydd sefydliadau yn ôl gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni'r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn am y canlyniadau drwy ein trefniadau adrodd ar gydraddoldeb arferol. |

## Rhywedd

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw’r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo’r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol sy’n gofyn iddynt ystyried amrywiaeth eu bwrdd, eu staff a'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith, ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys rhywedd. Mae cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig hefyd yn faen prawf i asesu ceisiadau i’r gronfa. | Amherthnasol | Byddwn ni’n monitro cynnydd sefydliadau yn ôl gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni’r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn am y canlyniadau drwy ein trefniadau adrodd ar gydraddoldeb arferol. |

## Cyfeiriadedd rhywiol

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol sy'n gofyn iddynt ystyried amrywiaeth eu bwrdd, eu staff a'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith, ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol. Mae cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig hefyd yn faen prawf i asesu ceisiadau i'r gronfa. | Amherthnasol | Byddwn ni'n monitro cynnydd sefydliadau yn ôl gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni'r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn am y canlyniadau drwy ein trefniadau adrodd ar gydraddoldeb arferol. |

## Diwylliant a'r Gymraeg

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol sy'n gofyn iddynt ystyried amrywiaeth eu bwrdd, eu staff a'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith, ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Mae'r Gymraeg a'r cyfle i'w hyrwyddo a'i ddefnyddio hefyd yn faen prawf i asesu ceisiadau i'r gronfa. | Amherthnasol | Bydd sefydliadau yn cael eu monitro o ran eu cynnydd yn erbyn gofynion y contract diwylliannol a disgwylir iddynt ddangos tystiolaeth o sut y maent yn cyflawni'r mesurau hyn, gan gynnwys dros y tymor hwy. Bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd drwy ein trefniadau adrodd arferol am y Gymraeg. |
| Effaith gadarnhaol | Mae'r broses ymgeisio a'i deunyddiau'n gwbl ddwyieithog. Gwahoddwn ymgeiswyr i ymgeisio yn eu dewis iaith ac ni fydd unrhyw wahaniaeth o ran sut y caiff ceisiadau eu trin ar sail iaith. | Amherthnasol | Cyhoeddir holl y broses ymgeisio yn ddwyieithog ar yr un pryd dan ein trefniadau cyhoeddi arferol sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ddatblygu a hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd ceisiadau Cymraeg yn cael |

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw’r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo’r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| | Gohebwn hefyd yn newis iaith yr ymgeisydd. | | eu hasesu gan swyddogion Cymraeg lle bynnag y bo modd. Pan na fo hynny’n bosibl, bydd trefniadau cyfieithu ar waith i sicrhau nad oes oedi o ran eu hasesu. Gwiriwn bob cyfieithiad cyn ei asesu. |

## Cymuned (gan gynnwys bod yn wledig)

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol sy'n golygu bod yn rhaid i sefydliadau ystyried gwella ansawdd bywyd pobl yn eu cymunedau.<br><br>Un o'n blaenoriaethau dan ein hagenda Cyrraedd yw gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ymgysylltu â'r celfyddydau i bawb a phob cymuned, ni waeth beth fo cefndir, lleoliad neu ffactor economaidd-gymdeithasol y bobl a'r cymunedau. | Amherthnasol | Byddwn ni'n monitro cynnydd sefydliadau yn ôl gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni'r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn am y canlyniadau drwy ein trefniadau adrodd rheolaidd. |

Byd-eang (defnydd o adnoddau naturiol, masnach deg/cyflogaeth foesegol a chaffael)

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol sy'n golygu bod yn rhaid i sefydliadau gymryd pob mesur posibl i gadw ac, os oes angen, adleoli staff, sicrhau cyfraddau cyflog priodol a gwneud y gorau o'r cyfleoedd i gefnogi gweithwyr llawrydd. | Amherthnasol | Byddwn ni'n monitro cynnydd sefydliadau yn ôl gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni'r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn am y canlyniadau drwy ein trefniadau adrodd rheolaidd. |

## Iechyd

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Bydd canllawiau'r gronfa yn cael eu cyhoeddi mewn fersiynau Hawdd ei Ddarllen ac Arwyddeg Prydain.<br><br>Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol Llywodraeth Cymru sy'n gofyn i bob sefydliad ddangos cynnwys pobl fyddar a phobl anabl a chefnogi mentrau'r celfyddydau ac iechyd, gan gynnwys rhagnodi cymdeithasol, yn eu cynlluniau at y dyfodol. Mae cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig hefyd yn faen prawf i asesu ceisiadau i'r gronfa. | Amherthnasol | Bydd sefydliadau yn cael eu monitro o ran eu cynnydd yn erbyn gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut y maent yn cyflawni'r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn ar ganlyniadau drwy ein trefniadau adrodd rheolaidd a gweithgarwch presennol y celfyddydau ac iechyd. |

Ffyniant (gan gynnwys cynaladwyedd, sefydlogrwydd ariannol a datblygiad gyrfa/cyfle)

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | Nod y gronfa yw helpu cyrff i ymgynnal yn ystod cyfnod o bwysau ariannol difrifol oherwydd y coronafeirws. Rhoddir sylw arbennig i'r rhai sy'n wynebu pwysau ariannol sylweddol, gan gynnwys canlyniadau gorffen cynllun cadw swyddi Llywodraeth Prydain. Mae'r gronfa yn galluogi sefydliadau i ymgeisio am arian tuag at y cynllun cadw staff a chostau cadw gweithwyr nad ydynt yn weithwyr.<br><br>Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol sy'n gofyn i sefydliadau gymryd pob mesur posibl i gadw ac, os oes angen, adleoli staff, sicrhau cyfraddau | Amherthnasol | Byddwn ni'n monitro cynnydd sefydliadau yn ôl gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni'r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn am y canlyniadau drwy ein trefniadau adrodd rheolaidd. |

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw’r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo’r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| | cyflog priodol a gwneud y gorau o’r cyfleoedd i gefnogi gweithwyr llawrydd. | | |

## Gwytnwch (yr amgylchedd naturiol gan gynnwys nwyon tŷ gwydr ac ôl troed carbon)

Nodwch yr effaith bosibl

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo'r effaith gadarnhaol? |
| --- | --- | --- | --- |
| Effaith gadarnhaol | Nod y gronfa yw helpu cyrff i oroesi yn ystod cyfnod o bwysau ariannol difrifol oherwydd y coronafeirws a rhoi mesurau ar waith a fydd yn eu galluogi i ailddechrau eu gwaith wrth ystyried ymbellhau cymdeithasol a chyfyngiadau cyfredol eraill. Mae'r gronfa yn galluogi sefydliadau i ymgeisio am arian tuag at gostau sy'n hwyluso rhagor o weithio o bell e.e. gliniaduron i staff.<br><br>Rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a llofnodi'r contract diwylliannol sy'n gofyn i sefydliadau ddangos gwytnwch a | Amherthnasol | Byddwn ni'n monitro cynnydd sefydliadau yn ôl gofynion y contract diwylliannol a disgwyliwn iddynt ddangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni'r mesurau, gan gynnwys yn yr hir dymor. Adroddwn am y canlyniadau drwy ein trefniadau adrodd rheolaidd. |

| Dewis effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith | Sut yr effeithir ar y categori a beth yw’r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol? | Sut y gallwch chi hyrwyddo’r effaith gadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| | sut y gallant leihau effaith eu gwaith ar yr amgylchedd. | | |

# Atodiad 2

## Camau gweithredu a nodir drwy'r asesiad hwn

Wrth greu gweithred, rhaid ichi sicrhau y gellir ei chyflwyno. Mae angen ichi drafod y weithred gyda'r swyddog a fydd yn arwain ar ei chyflwyno. Sicrhewch eich bod yn cytuno ar yr amserlen, yn ogystal â sut y bydd yn cael ei hariannu, ei darparu a'i monitro. Rhaid gwneud hyn cyn i'r asesiad o effaith a'r cynnig gael eu cymeradwyo.

| Mater | Gweithred/tasg | Cyfrifoldeb arweiniol | Amserlen | Goblygiadau o ran adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae ymgeisio i'r gronfa adfer wedi'i gyfyngu i sefydliadau cymwys fel y dywed ein meini prawf | Ystyried sut y gallai ailbwrpasu rhai o raglenni'r Loteri Genedlaethol i gefnogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol nad ydynt yn gymwys i ymgeisio i unrhyw faes o gronfa adfer Llywodraeth Cymru | Uwch dîm arwain | Rhagfyr 2020 | Digon o fanylion ar gael. Cydweithio ar gynigion drwy feysydd eraill y gronfa adfer a'u targedau a'u meini prawf<br><br>Digon o incwm o'r Loteri Genedlaethol<br><br>Digon o adnoddau staff | |

| Mater | Gweithred/tasg | Cyfrifoldeb arweiniol | Amserlen | Goblygiadau o ran adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Monitro'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a'n gofynion contract diwylliannol gan sefydliadau sy'n ymgeisio ar draws y nodweddion gwarchodedig | Sicrhau bod systemau ar waith i fonitro, gwerthuso ac adrodd ar y cynnydd a wneir yn erbyn yr ymrwymiadau gan sefydliadau sy'n cael arian o'r gronfa | Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau gyda chymorth gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Ariannu'r Celfyddydau) ac Ymchwil | Gwerthusiad ac adroddiad cychwynnol Mai 2021<br><br>Adroddiad dilynol Mai 2022 | Digon o fanylion ar gael mewn adroddiadau diweddu'r gronfa adfer (prosiect system rheoli grantiau)<br><br>Proses ddilynol ar waith<br><br>Digon o adnoddau staff | |
| Monitro'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a'n gofynion Cymraeg yn y contract diwylliannol | Sicrhau bod systemau ar waith i fonitro, gwerthuso ac adrodd ar y cynnydd a wneir yn erbyn yr ymrwymiadau gan sefydliadau sy'n cael grant o'r gronfa | Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau gyda chymorth gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Ariannu'r Celfyddydau) ac Ymchwil | Gwerthusiad ac adroddiad cychwynnol Mai 2021<br><br>Adroddiad dilynol Mai 2022 | Digon o fanylion ar gael mewn adroddiadau diweddu'r gronfa adfer (prosiect system rheoli grantiau)<br><br>Proses ddilynol ar waith | |

| Mater | Gweithred/tasg | Cyfrifoldeb arweiniol | Amserlen | Goblygiadau o ran adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Digon o adnoddau staff | |
| Monitro'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad i'n hagenda gydraddoldeb a'n gofynion contract diwylliannol gan sefydliadau sy'n ymgeisio ar draws y nodau llesiant cenedlaethau’r dyfodol | Sicrhau bod systemau ar waith i fonitro, gwerthuso ac adrodd ar y cynnydd a wneir yn erbyn yr ymrwymiadau gan sefydliadau sy'n cael grant o’r gronfa | Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau gyda chymorth gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Ariannu'r Celfyddydau) ac Ymchwil | Gwerthusiad ac adroddiad cychwynnol Mai 2021<br><br>Adroddiad dilynol Mai 2022 | Digon o fanylion ar gael mewn adroddiadau diweddu'r gronfa adfer (prosiect system rheoli grantiau)<br><br>Proses ddilynol ar waith<br><br>Digon o adnoddau staff | |
| Gall ymgeiswyr sy'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar ganllawiau a ffurflenni cais am resymau anabledd ofyn am gymorth ychwanegol | Proses ymgeisio ar-lein a deunydd ategol yn galluogi ymgeiswyr i ofyn am gymorth ychwanegol yn ystod cam cyntaf y cais. | Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cyllid a Busnes | Erbyn dyddiad gweithredu, 17 Awst 2020 | Adnoddau staff drwy gydol y cyfnod ymgeisio | Cynnwys dolen i ofyn am gymorth yn y ffurflen gais ar-lein a’r canllawiau.<br><br>Monitro argaeledd staff i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ymateb yn |

| Mater | Gweithred/tasg | Cyfrifoldeb arweiniol | Amserlen | Goblygiadau o ran adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyhoeddi fersiynau Hawdd ei Ddarllen ac Arwyddeg Prydain o'r canllawiau | Pennaeth Cyfathrebu | | | gyflym i geisiadau drwy gydol y cyfnod ymgeisio. |
| Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer darparu, prosesu ac asesu ceisiadau Cymraeg | Proses ymgeisio ar-lein a deunydd ategol cwbl ddwyieithog a digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ateb ymholiadau, asesu ceisiadau neu gyfieithu'n brydlon os oes angen | Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau | Erbyn dyddiad gweithredu, 17 Awst 2020 | Adnoddau staff Cymraeg drwy gydol y cyfnod ymgeisio wrth y cam asesu | Proses ymgeisio ar-lein a deunydd ategol yn gwbl ddwyieithog.<br><br>Monitro argaeledd staff i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ymateb yn gyflym i geisiadau drwy gydol y cyfnod ymgeisio ac wrth y cam asesu. |

**Sut y caiff y rhain eu monitro?**
Drwy ein trefniadau presennol gan gynnwys gwaith craffu rheolaidd gan yr uwch dîm arwain ac adroddiadau dilynol i'r is-bwyllgorau a'r Cyngor.

**Sut a ble y caiff hwn ei gyhoeddi?**
Ar ôl ei gymeradwyo, bydd yr asesiad yn cael ei gyhoeddi gyda chanllawiau ein cronfa adfer ddiwylliannol ar ein gwefan.